Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bontnewydd
# Bontnewydd
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 2UF

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bontnewydd ym mhentref Bontnewydd rhyw ddwy filltir o dref Caernarfon yng Ngwynedd.  Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r cylch cyfagos, gan gynnwys pentrefi Caeathro a Llanfaglan.  Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed.  Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu.  Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2.  Daw oddeutu 75% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.  Derbynnir plant i'r ysgol, yn amser llawn  yn ystod y tymor maent yn bedair oed.  Yn ystod yr arolygiad, roedd 179 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 21 yn y dosbarth meithrin.  Saith dosbarth sydd yn yr ysgol, gyda phump ohonynt yn rhai oed cymysg.

Oddeutu 3% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae 20% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.  Mae'r ffigurau hyn yn is na chanrannau Cymru.  Mae chwe disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2009 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Bontnewydd yn 2016-2017 yn £3,783.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089.  Mae Ysgol Gynradd Bontnewydd yn y 57fed safle allan o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

**Perfformiad presennol**

**Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:**

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- safon medrau allweddol rhan fwyaf y disgyblion yn uchel ac maent yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth rhan fwyaf y disgyblion yn uchel; maent yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr
- staff yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion
- safonau addysgu yn dda neu'n well, ac yn ffactor arwyddocaol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y cynnydd da a'r cyflawniadau cadarn a gyflawnir gan y disgyblion
- ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion
- y gymuned yn un gartrefol a chynhwysol, lle teimla'r disgyblion yn ddiogel a hapus

**Rhagolygon gwella**

**Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn rhagorol oherwydd bod:**

- arweinyddiaeth flaengar y pennaeth a'r dirprwy yn gosod cyfeiriad strategol clir iawn i ddatblygiad yr ysgol
- gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth hynod glir, sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus iawn gyda'r holl staff, llywodraethwyr a disgyblion
- yr holl staff yn ymroddgar ac yn gweithio'n agos fel tîm
- gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn iawn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella ac maent yn chwarae rhan strategol amlwg ym mhrosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yr ysgol
- yr ysgol yn meddu ar weithdrefnau hunanarfarnu parhaus a thrylwyr, sy'n canolbwyntio'n gadarn ar wella deilliannau disgyblion
- gallu'r ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol iawn
- gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a lles y disgyblion
- yr ysgol yn gymuned ddysgu gref iawn, lle mae staff yn cael ystod eang o gyfleoedd i wella'u medrau a'u gwybodaeth broffesiynol

## Argymhellion

A1 Gwella medrau modelu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Gwella presenoldeb

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o'r disgyblion fedrau sylfaenol sy'n is na'r disgwyl. O ystyried eu man cychwyn, mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion ac yn y gwersi yn dangos bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd ardderchog. Mae bron pob disgybl yn dangos diddordeb amlwg yn eu gwaith ac yn gweithio'n gydwybodol am gyfnodau estynedig. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus iawn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion yn ystod y cyfnodau dysgu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n glir ac yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Maent yn trafod profiadau a digwyddiadau yn fedrus, yn gofyn cwestiynau priodol, yn cynnig sylwadau a mynegi barn o oed cynnar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn meddu ar eirfa eang ac yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a Saesneg ac yn defnyddio amrywiaeth gynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol yn gywir. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac effeithiol ar lafar. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn cyfnewid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith am y planedau a môr ladron, er enghraifft.

Mae safon darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac ystyrlon ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, gyda llawer yn darllen gyda mynegiant da. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei ddarllen ac yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn wybodus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau'n effeithiol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol o sawl ffynhonnell wahanol, er enghraifft yn eu gwaith themâu am y Celtiaid, teithio ac am y môr. Mae gwybodaeth llawer o'r disgyblion am wahanol awduron yn gadarn.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n grefftus at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio brawddegau llawn, atalnodi'n gywir a defnyddio ystod gynyddol o eirfa gyfoethog a chystrawen dda. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd effeithiol maent yn ysgrifennu adroddiadau manwl am 'briodas' y dosbarth yn y capel lleol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cynllunio eu gwaith yn ofalus yn y Gymraeg a Saesneg ac yn gwneud gwelliannau priodol wrth ailddrafftio. Mae gwaith y rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth dda o ffurfiau amrywiol o ysgrifennu gan ddefnyddio ystod o ffynonellau addas. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu testunau diddorol gan ddefnyddio ystod eang o eirfa, fel berfau a chymariaethau, yn effeithiol i gyfoethogi'u gwaith. Enghreifftiau da o hyn yw'r ffordd effeithiol maent yn ysgrifennu rhaglen newyddion am afon Gwyrfai yn gorlifo a hanes awdur adnabyddus. Mae medrau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y

cwricwlwm yn gadarn, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio paragraffau'n fedrus. Mae enghreifftiau da yn cynnwys y ffordd mae llawer wedi ysgrifennu darn effeithiol am y 'Royal Charter' a chreu ffeil ffeithiau diddorol am Ddydd y Cofio. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n daclus ac yn cyflwyno'u gwaith â graen i safon uchel ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol a rhifedd wrth symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn adio a thynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o werth gwahanol ddarnau arian wrth eu defnyddio'n gywir hyd at bunt. Maent yn mesur yn fanwl wrth ddefnyddio mesuriadau safonol ac ansafonol i ddatrys problemau syml. Gall y rhan fwyaf ddewis cyfarpar priodol i gyflwyno gwybodaeth a gasglwyd yn fedrus gan egluro eu canfyddiadau yn gywir er enghraifft wrth fesur esgyrn dinosoriaid a thyfiant babi jiráff dros gyfnod, a chofnodi hyn yn glir a dealladwy ar ffurf graff bloc.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfain â 10 a 100 ac o ddegolion wrth adio a thynnu'n gywir hyd at ddau le degol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod briodol o fedrau mesur amser yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn datblygu strategaethau rhifiadol perthnasol da ar gyfer datrys problemau ac yn cyflwyno eu canlyniadau mewn modd systematig. Enghreifftiau da o hyn yw'r gwaith o gofnodi gofalus mewn tabl pa mor uchel mae pêl yn adlamu ar ôl ei gollwng o wahanol uchder, ac wrth ddarganfod faint o wylwyr sydd, ar gyfartaledd, yn mynychu gemau rygbi rhyngwladol. Maent yn egluro'u canfyddiadau yn ddeallus.

Mae medrau TGCh disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion iau'r cyfnod yn defnyddio bysellfwrdd yn effeithiol i greu llun a brawddeg a medrant gael mynediad i raglenni a safweoedd yn eithaf annibynnol. Maent yn egluro a thrafod eu gwaith yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni amrywiol i wneud graffiau bloc, creu lluniau o ddinosoriaid, yn ogystal â lawrlwytho rhaglen i greu border addas i gyd-fynd â'u stori. Mae'r rhan fwyaf yn medru rheoli tegan symudol yn llwyddiannus i adnabod siapiau mathemategol a defnyddio codau 'QR' yn gynyddol hyderus.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn effeithiol. Maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol trwy ddefnyddio amrywiaeth helaeth o raglenni. Maent yn defnyddio rhaglen gyfathrebu yn fedrus i ysgrifennu stori greadigol am ynys ffug. Maent yn trin data yn effeithiol wrth gyflwyno graff sy'n dangos amlder y gwahanol fathau o drafnidiaeth sy'n teithio drwy'r pentref ac wrth gofnodi gwahanol adar sydd i'w gweld ar dir yr ysgol dros gyfnod. Mae'r bron pob disgybl yn hyderus wrth chwilio ar y we am wybodaeth briodol sy'n gysylltiedig â'r themâu y maent yn eu hastudio. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau ymchwiliol a llythrennedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw medrau modelu disgyblion wedi datblygu'n ddigonol. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn amlwg ar draws yr ysgol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig mewn medrau iaith a mathemateg, o'i gymharu ag ysgolion tebyg, wedi bod yn is na'r canolrif mewn tair allan o'r pedair blynedd. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch mewn medrau iaith a mathemateg wedi bod yn gyson is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 50% is. Mae ei pherfformiad mewn mathemateg wedi bod yn gyson is na'r canolrif. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch yn y Gymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson uwch na'r canolrif. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 50% is. Mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg wedi bod yn gyson is na'r canolrif.

Yn y Cyfnod Sylfaen, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y deilliant disgwyliedig mewn iaith na mathemateg. Fodd bynnag, ar y deilliant uwch, mae'r merched yn tueddu i berfformio'n well na'r bechgyn yn y ddau faes. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig mewn unrhyw bwnc. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, er nad oes gwahaniaeth nodedig mewn Cymraeg na Saesneg, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio.

Yn y Cyfnod Sylfaen, a chyfnod allweddol 2, mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi bod yn fach, felly mae unrhyw gymhariaeth synhwyrol rhyngddynt â disgyblion eraill yn annibynadwy.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel gan oedolion. Maent yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff os oes ganddynt bryderon. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth rhan fwyaf y disgyblion yn uchel mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a'r hyn sydd angen ei wneud i gadw'n heini.

Mae bron pob disgybl yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol iawn gyda'i gilydd o oed ifanc. Ar draws yr ysgol, mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae'r ffordd y maent yn cyfrannu'n ddeallus at yr hyn y maent yn ei ddysgu ac yn trafod yn aeddfed sut i wella eu gwaith yn nodweddion cryf. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi amrywio dros gyfnod, ac ond wedi bod yn uwch nag ysgolion tebyg mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd eang i leisio barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gwaith y cynghorau i gyd yn effeithiol iawn ac yn dylanwadu'r ardderchog ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor eco, cyngor ysgol iach a chyngor y Siarter Iaith yn frwdfrydig iawn, ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn y gymuned ysgol. Maent yn cydweithio'n arbennig o effeithiol gyda staff i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel, iach a hapus, ac maent wedi cynllunio a datblygu tir yr ysgol yn greadigol iawn. Mae'r warchodfa natur, er enghraifft, yn gaffaeliad defnyddiol ac fe wneir defnydd da ohono i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o fyd natur. Mae gwaith cyngor y Siarter Iaith yn effeithiol iawn wrth annog disgyblion a rhieni i siarad Cymraeg.

Trwy gymryd rhan frwdfrydig mewn sawl gweithgaredd cymunedol fel perfformio mewn cartrefi preswyl, a chymryd rhan mewn nosweithiau llawen a chyngherddau, mae disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu hardal a'u Cymreictod.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol i'w disgyblion, sy'n bodloni holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae athrawon wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus i'r cynllunio gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion atgyfnerthu'r medrau hyn a mwyafrif eu medrau TGCh yn eu gweithgareddau'n ddyddiol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau modelu TGCh.

Trwy gynllunio manwl, ar sawl lefel o her, mae'r athrawon yn sicrhau bod tasgau yn addas ar gyfer yr ystod gallu a bod cyfleoedd da yn y cynlluniau i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol. Rhoddir cyfleoedd cyson i ddisgyblion ar ddechrau pob themâu i gyd-gynllunio gyda'r athrawon ac i gynnig agweddau sydd o ddiddordeb arbennig iddynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion tuag at eu gwaith. Cyfoethogir y profiadau dysgu ymhellach drwy ymweliadau addysgol buddiol a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i siarad â'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws hynod o gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn llwyddiannus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gyffrous ac yn llawn dychymyg. Atgyfnerthir y profiadau yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gystadlu mewn eisteddfodau, ymweliadau hanesyddol a gweithgareddau 'Cymru Cŵl'. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth a chynyddu diddordebau'r disgyblion o draddodiadau, diwylliant a hanes yr ardal leol a Chymru gyfan, yn llwyddiannus.

Trwy ystod eang o weithgareddau amrywiol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae'r cyngor eco yn rhoi arweiniad ardderchog ar hyn i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Maent wedi llunio blaenoriaethau a rhaglen waith ddiddorol iddynt sy'n cynnwys gwaith diwyd a dyddiol i sicrhau bod yr ysgol gyfan yn ailgylchu gymaint â phosibl, a chreu cynefinoedd naturiol ar dir yr ysgol i ddenu adar a thrychfilod gwyllt.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau gwahanol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu dangos empathi am fywydau pobl eraill drwy, er enghraifft cefnogi Cynllun Plentyn Nadolig a noddi plant yn Affrica.

## Addysgu: Da

Mae safonau addysgu yn dda neu'n well ar draws yr ysgol, ac yn ffactor arwyddocaol yn y cynnydd da a chyflawniadau a lles cadarn a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae gan athrawon ac oedolion eraill berthynas waith effeithiol gyda'i gilydd a chyda'r disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i roi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac maent yn seilio'u gwersi'n glir ar ddysgu blaenorol disgyblion, gan ddefnyddio ystod o ddulliau dysgu'n fedrus i ennyn eu diddordeb a'u hannog i wneud cynnydd da. Mae'r athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau ac yn holi'r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig.

Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad eu medrau llafar. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt lwyddo yn eu gwaith.

Mae arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae enghreifftiau da o farcio pwrpasol, gyda sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion. Mae hyn yn annog y disgyblion i fanteisio ar bob cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athrawon. Mae gweithdrefnau da yn bodoli i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mae hyn yn sicrhau, yn gynnar iawn, bod disgyblion yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd effeithiol iawn o ddeilliannau profion safonol ac asesiadau athrawon. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn glir iawn ac maent yn defnyddio'r wybodaeth i osod tasgau heriol er mwyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol iddynt yn bodloni'r gofynion statudol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn hynod effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn iawn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Mae ymroddiad yr ysgol i hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol fel Campau'r Ddraig a Dal i Fynd yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ffitrwydd yr holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Amlygir hyn yn glir yn y ffordd hynaws y maent yn ymdrin â'i gilydd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Nodwedd ragorol o waith yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Gwna'r staff ddefnydd effeithiol iawn o wybodaeth asesiadau ffurfiol ac anffurfiol yr athrawon i adnabod anghenion penodol y disgyblion yn gynnar, ac maent yn darparu rhaglenni cefnogi hynod lwyddiannus ar eu cyfer. Mae staff yn gofalu bod y cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac maent yn darparu strategaethau effeithiol iawn i gefnogi'r disgyblion hyn, gan oresgyn unrhyw rwystrau dysgu yn llwyddiannus iawn. Mae'r weithdrefn olrhain cynnydd yn gadarn a thrwyadl ac yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyl dros amser. Mae'r sesiynau ymyrraeth yn cynnig cefnogaeth arbennig iddynt ac yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd da iawn a wnânt. Mae'r ysgol eisoes wedi rhannu ei phrofiad yn y maes hwn fel arfer ardderchog gydag ysgolion eraill o fewn yr awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o asiantaethau arbenigol, fel y gwasanaeth seicolegol a chymdeithasol a therapyddion iaith, sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae unigolion yn derbyn gofal ac arweiniad o'r ansawdd gorau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion â'i gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y gymuned hapus a chefnogol sy'n bodoli yno.

Rhoddir pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i gwricwlwm eang i'r holl ddisgyblion. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor fel Affrica a chyfrannu at elusennau fel Awyr Las ac Achub y Plant.

Mae athrawon yn darparu ystod dda o adnoddau dysgu sy'n gweddu'n bwrpasol i anghenion a diddordebau disgyblion. Mae'r holl adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol iawn er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu gan gynnwys buddsoddiad sylweddol mewn sefydlu llyfrgell ym mhob dosbarth ac mewn cyfarpar TGCh.

Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar draws yr ysgol, yn adlewyrchu gwaith y disgyblion a gweithgareddau ehangach yn ddychmygus iawn. Mae'r arddangosfa yn yr oriel gelf yn greadigol iawn ac yn ymddangos gwaith o'r safon uchaf.

Mae ansawdd y safle'n dda iawn. Caiff ei gynnal yn dda ac mae'n cynnig amgylchedd ysgogol sy'n hyrwyddo dysgu llwyddiannus. Mae'r mannau dysgu yn yr awyr agored wedi eu datblygu mewn modd diddorol i wneud defnydd effeithiol iawn o'r lle sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae i ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys yr ardd lysiau, y berllan ac ardaloedd i ddenu adar gwyllt.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth a'r dirprwy yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth gadarn y mae'n eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mae'n dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn llwyddiannus, gan hybu datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus iawn. Mae ganddi rôl allweddol mewn hyrwyddo cydweithio pwrpasol a rhannu arfer dda o fewn yr ysgol ac mewn ysgolion lleol eraill. Er enghraifft, mae athrawon o ysgolion eraill yn ymweld yn rheolaidd i arsylwi ar weithdrefnau cynnal ymyraethau a chryfderau mewn addysgu.

Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n hynod effeithiol a chydwybodol. Mae'r athrawon yn ymroddedig a brwdfrydig ac mae'r holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod, cynllunio ar y cyd ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y profiadau eang, ysgogol a ddarperir er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol unigolion a chodi safon gwaith yr holl disgyblion.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad trylwyr sy'n bodoli yn cyfrannu'n effeithiol iawn at welliannau mewn addysgu a dysgu, ac yn cynnig cyfleoedd niferus a chyffrous i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen hyfforddiant berthnasol. Mae'n arwyddocaol iawn fod arweinwyr yn medru trefnu llawer o'r hyfforddiant hwn yn fewnol gan fod arbenigedd a chymwysterau aelodau'r uwch dîm rheoli a'r staff yn eu galluogi i wneud hyn yn llwyddiannus.

Mae'r modd y mae'r uwch dîm rheoli yn cyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel y Siarter Iaith a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn gryfder. Mae ymroddiad a blaengaredd y disgyblion a'r unigolion sydd ynghlwm â'r Cyngor Siarter Iaith yn ogystal â chynghorau eraill yn cynnwys nodweddion rhagorol, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles yr holl ddisgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadau blaengar, sy'n cynnwys rhannu a chywain gwybodaeth oddi wrth y staff a chymryd rhan weithredol mewn gweithdrefnau monitro trylwyr a chynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys ymweld â'r dosbarthiadau yn rheolaidd a chraffu'n dreiddgar ar ddata perfformiad, sy'n eu galluogi i ddod i farn bendant ynglŷn â safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. O ganlyniad i'w hymroddiad cyson i'r holl drefniadau hyn, maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus ac yn ei chefnogi'n effeithiol iawn.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn meddu ar weithdrefnau hunanarfarnu parhaus a thrylwyr, sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion. Maent yn greiddiol i holl fywyd a gwaith yr ysgol ac yn hyrwyddo gweledigaeth ddidwyll yr uwch dîm rheoli i godi

safonau a sicrhau lles da y disgyblion. Mae'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn effeithiol iawn. Mae'r gweithdrefnau hyn yn seiliedig ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi ac arfarnu gweithgareddau monitro trylwyr gan staff a llywodraethwyr.

Mae'r pennaeth yn cynnwys barn yr holl randdeiliaid ym mywyd a threfniadau'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae gan yr ysgol ymrwymiad cadarn i gynnwys cyfranogiad disgyblion yn ei holl benderfyniadau. Nodwedd gref o'u gwaith yw'r pwyslais a roddir ar lais y disgybl yn y weithdrefn hunanarfarnu a blaenoriaethu ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn gwneud hyn trwy gyfarfodydd y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r cyngor i hybu'r Siarter Iaith. Mae bob cyngor yn pennu blaenoriaethau sy'n arwain at welliannau cyraeddadwy fel creu ardaloedd neilltuol ar gyfer pêl-droed yn ystod yr egwyl i alluogi disgyblion i gyd-chwarae'n hwylus, neu fonitro absenoldebau yn y dosbarthiadau i hybu gwell presenoldeb. Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i rieni ymateb i drefniadau'r ysgol trwy rannu holiaduron a threfnu ymweliadau pwrpasol iddynt fynegi barn.

Mae'r trefniadau blaengar sy'n bodoli i ddatblygu rôl strategol y corff llywodraethol yng ngweithdrefnau hunanarfarnu a monitro blaenoriaethau'r ysgol yn nodweddion rhagorol. O ganlyniad, mae gan aelodau'r corff bellach ddealltwriaeth gadarn o ddata perfformiad, y gweithdrefnau cynllunio ac asesu, a gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, sy'n eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol am ei pherfformiad.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cysylltu'n agos â deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu, ac mae'r blaenoriaethau'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau disgyblion. Mae gallu'r ysgol i gynllunio i sicrhau gwelliant yn rhagorol. Mae'r cynnydd mewn cyrhaeddiad disgyblion o'u man cychwyn yn dystiolaeth gadarn o hyn. Mae'r cynlluniau yn nodi gweithgareddau gwella, targedau mesuradwy, amserlen a threfniadau monitro briodol, ac enw'r aelod staff sydd â chyfrifoldeb amdano. Mae'r camau gweithredu eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safonau fel, er enghraifft, codi safon darllen a gwella medrau rhesymu mathemategol disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r berthynas gref iawn sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn cyfrannu'n effeithiol iawn at wella safonau a lles y disgyblion. Mae nodweddion arbennig yn cynnwys y 'Cynllun Parod i Ddysgu' a'r cynllun sy'n annog rhieni i siarad Cymraeg yn y cartref. Mae'r 'Cynllun Parod i Ddysgu' yn gytundeb gyda theuluoedd i wella medrau personol a chymdeithasol disgyblion wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at gamau gweithredu llwyddiannus fel prynu adnoddau ar gyfer 'Llyfrgell Benthyg' a gweithgareddau mathemategol. Yn dilyn hyfforddiant gan staff yr ysgol mae llawer o'r rhieni bellach yn fwy hyderus i gefnogi eu plant. Dan arweiniad aelodau'r cyngor i hybu'r Siarter Iaith, gosodir 'testun trafod wythnosol' i annog rhieni i siarad am fater penodol gyda'u plant yn eu cartrefi. Mae adborth rhieni,

gwerthusiad y fenter ac adroddiadau'r cyngor yn dangos bod y fenter hon yn cael sylw teilwng mewn sawl cartref ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella a pharchu'r iaith Gymraeg.

Caiff y rhieni wybodaeth reolaidd ac effeithiol am fywyd a gwaith yr ysgol trwy gylchlythyron rheolaidd. Mae gweithdai addysgiadol am y cwricwlwm yn codi eu hymwybyddiaeth o ddulliau dysgu, ac yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plant yn fwy effeithiol mewn agweddau o lythrennedd a rhifedd. Trwy weithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae'r ysgol yn elwa'n sylweddol wrth dderbyn rhoddion ariannol, sydd wedi sicrhau amrediad eang o adnoddau fel llyfrau a chyfarpar TGCh. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at addysg y disgyblion.

Mae partneriaeth dda iawn yn bodoli rhwng yr ysgol ac ysgol arbennig leol. Mae uned wedi ei sefydlu yn yr ysgol ac fe fanteisir yn llawn ar bob cyfle i integreiddio disgyblion yr ysgol arbennig gyda disgyblion y brif ffrwd. Mae hyn yn amlwg iawn yn ystod amseroedd egwyl ac mewn gwersi addysg gorfforol a chelf. Mae disgyblion y ddwy ysgol yn elwa'n dda yn gymdeithasol ac yn addysgol o'r profiadau hyn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a swyddogion y consortiwm rhanbarthol i ddarparu hyfforddiant i staff ysgolion eraill ar ddulliau targedu ac olrhain cynnydd a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn helpu i hybu arfer dda mewn addysgu a dysgu mewn ardal eang.

Mae'r cysylltiadau da a'r trefniadau buddiol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth ddechrau. Mae gan yr ysgol ddiwylliant buddiol o gydweithio gydag ysgolion eraill i godi safonau disgyblion, drwy drefnu, er enghraifft, ganllawiau ar gyfer gwella medrau rhif. Cydweithia'r ysgol yn agos gyda'r ysgol uwchradd leol i sicrhau cefnogaeth dda i'r disgyblion wrth drosglwyddo yno.

Mae athrawon y dalgylch yn cydweithio'n effeithiol mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r deilliannau disgwyliedig a chyraeddiadau'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ymdeimlad o dîm addysgu yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae'r staff cynorthwyol yn cynnig cefnogaeth gadarn ac fe gânt effaith sylweddol ar godi safon gwaith a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mae trefniadau addas ar gyfer darparu amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar sawl ffynhonnell i gefnogi disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd darbodus o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu gref.  Mae ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i staff wella’u medrau a’u gwybodaeth broffesiynol ac i rannu arfer dda gydag ysgolion eraill.  Mae hynny’n cael effaith gadarnhaol ar gynllunio, addysgu a phartneriaethau defnyddiol a buddiol.

Mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion, y ddarpariaeth eang ac ansawdd ardderchog yr arweinyddiaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612122 - Ysgol Bontnewydd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 182 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 20 | 29 | 18 | 25 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 90.0 | 72.4 | 88.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 29 | 18 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 75.9 | 94.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 31.0 | 22.2 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 29 | 18 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 82.8 | 94.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 17.2 | 16.7 | 24.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 29 | 18 | 25 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 86.2 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 55.0 | 34.5 | 44.4 | 56.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612122 - Ysgol Bontnewydd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 182 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 22 | 30 | 17 | 23 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.9 | 86.7 | 82.4 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 30 | 17 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.5 | 90.0 | 88.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.4 | 30.0 | 41.2 | 52.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 30 | 17 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 90.0 | 88.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 45.5 | 40.0 | 58.8 | 47.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 30 | 17 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 86.7 | 82.4 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 43.3 | 52.9 | 43.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 30 | 17 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 93.3 | 88.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 45.5 | 50.0 | 58.8 | 52.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 96 | 96<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 95<br>99%<br>92% | 1<br>1%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 96 | 96<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 96 | 96<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 96 | 96<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 96 | 95<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 96 | 95<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 96 | 96<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 96 | 91<br>95%<br>90% | 5<br>5%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 96 | 94<br>98%<br>95% | 2<br>2%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 96 | 88<br>92%<br>77% | 8<br>8%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 96 | 96<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 72 | 59 | 11 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 15% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 70 | 59 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 84% | 14% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 71 | 60 | 10 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 85% | 14% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 72 | 46 | 24 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 64% | 33% | 1% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 72 | 38 | 28 | 1 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 53% | 39% | 1% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 72 | 50 | 20 | 0 | 1 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 28% | 0% | 1% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 72 | 52 | 19 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 72% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 72 | 42 | 23 | 2 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 58% | 32% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 72 | 45 | 20 | 1 | 1 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 62% | 28% | 1% | 1% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 71 | 48 | 22 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 68% | 31% | 1% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 71 | 55 | 12 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 77% | 17% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 70 | 43 | 13 | 1 | 1 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 61% | 19% | 1% | 1% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 72 | 29<br>40% | 38<br>53% | 5<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 72 | 51<br>71% | 17<br>24% | 2<br>3% | 1<br>1% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 71 | 40<br>56% | 26<br>37% | 3<br>4% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 72 | 48<br>67% | 21<br>29% | 2<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 70 | 24<br>34% | 24<br>34% | 1<br>1% | 0<br>0% | 21 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 72 | 36<br>50% | 29<br>40% | 3<br>4% | 1<br>1% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 72 | 57<br>79% | 13<br>18% | 1<br>1% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mr Glyn Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Janet Wyn George (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.